**DYLAN J. WILLIAMS** BA (Hons), MSc, MA, M.R.T.P.I
Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd
Head of Service Regulation and Economic Development

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Canolfan Fusnes Môn • Anglesey Business Centre
Parc Busnes Bryn Cefni • Bryn Cefni Business Park
LLANGEFNI
Ynys Môn • Isle of Anglesey
LL77 7XA

ffôn / tel: (01248) 752431/2435
ffacs / fax: (01248) 752192

Gofynnwch am / Please ask for: Dylan Williams
E-bost / Email: DylanJWilliams@anglesey.gov.uk
Ein Cyf / Our Ref: YM / EN010007
Eich Cyf / Your Ref: EN010007

Dyddiad / Date: 3.12..2018

Annwyl Kay,

**Archwiliad GCD Wylfa Newydd EN010007.**

**Cais rhif 1. am Newidiadau Ansylweddol - Strategaeth Blastio**

**Cyflwyniad Terfyn Amser 2.**

Gweler drosodd, os gwelwch yn dda, sylwadau'r Cyngor mewn perthynas â'r uchod

Yn gywir,

Dear Kay,

**Wylfa Newydd GCD Examination EN010007.**

**Request for Non-Material Change no.1- Blasting Strategy**

**Deadline 2 Submission.**

Please see overleaf the Council's representation in respect of the above

Yours sincerely,

[redacted]

**Dylan J. Williams**

**Pennaeth Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd**

**Head of Service Regulation and Economic Development**

**Regulation & Economic Development**

**Archwiliad GCD Wylfa Newydd EN010007**

**Cais rhif 1. am Newidiadau Ansylweddol**

**Strategaeth Blastio**

**Cyflwyniad Terfyn Amser 2**

**Paratowyd gan: Swyddfa Rheoli Rhaglen Ynys Ynni**
**3 Rhagfyr, 2018**

## Cais rhif 1. am Newidiadau Ansylweddol Strategaeth Blastio

Mae'r ohebiaeth hon yn rhan o'r ymateb i CSYM am Gais Rhif 1 am Newidiadau. Strategaeth Blastio sy'n rhan Gyfeirnod AS-020 y Llyfrgell Archwilio a dderbyniwyd ar sail disgresiwn yr Awdurdod Archwilio.

Ymatebodd CSYM i ymgynghoriad cyhoeddus HNP a gynhaliwyd o ddydd Mawrth 14 Awst hyd at ddydd Gwener 28 Medi 2018. (Gweler copi o'r ymateb dyddiedig 28 Medi 2018 ynghlwm).

Tra bod CSYM yn fodlon bod y newid arfaethedig yn ansylweddol o ran cyd-destun, mae'r Cyngor yn gwrthwynebu'r cais o safbwynt y newidiadau y gofynnir eu gwneud i'r Strategaeth Blastio o safbwynt oriau blastio ychwanegol y gofynnir eu gweithredu rhwng 1800 a 1900 o'r gloch. Ystyrir y gallai'r newid hwnnw gael effaith andwyol ar gymunedau gerllaw.

**Cysondeb â'r Safon Brydeinig**

Mae HNP yn cadarnhau bod angen y newidiadau yn dilyn gwaith parhaus gan y contractwr, gwybodaeth ychwanegol ynglŷn â gofynion blastio yn ystod gwaith adeiladu ac i leihau risg y prosiect. Mae'r newid di-faterol yn bwriadu ymestyn yr oriau blastio yn ystod yr wythnos rhwng 10:00 a 16:00 (6 awr), i rhwng 09:00 a 19:00 (10 awr), a blastio ar ddydd Sadwrn rhwng 10:00 and 13:00 (3 awr), i rhwng 09:00 a 13:00 (4 awr). Cadarnheir na fydd unrhyw waith blastio ar ddydd Sul na Gwyliau Banc. Nodir mai dim ond teirgwaith y dydd y bydd dirgryniadau.

Mae HNP yn cadarnhau na ragwelir y bydd unrhyw effeithiau amgylcheddol sylweddol tebygol newydd neu wahanol mewn perthynas â'r newid arfaethedig.

Mae HNP yn cadarnhau bod y newidiadau arfaethedig yn seiliedig ar y canllawiau yn BS6472-2:2008 '*Guide to evaluation of human exposure to vibration in buildings.*'

Mae CSYM yn derbyn y defnydd o BS6472-2:2008 '*Guide to evaluation of human exposure to vibration in buildings*' yn amodol ar gynnwys darpariaeth ddigonol yng Nghod Ymarfer Adeiladu (CoCP) Wylfa Newydd ac Is-godau Ymarfer i sicrhau bod mesurau arfer gorau yn rheoli effeithiau blastio.

Mae Horizon yn cynnig y bydd y newid arfaethedig yn sicrhau bod amseroedd blastio'n cyd-fynd yn well â'r Safonau Prydeinig perthnasol BS 6472-2 ar y graddau y daw pobl i gysylltiad â dirgrynu.

Mae'r Safon Brydeinig yn rhoi canllawiau penodol ynglŷn â'r amseroedd a argymhellir ar gyfer blastio ac mae'n cadarnhau maint dirgrynu boddhaol (cyflymder gronynnau anterth), gan ddiffinio blastio yn ystod y dydd y nos ac ar amseroedd eraill. Yn ôl y safon diffinnir y Dydd i bwrpas blastio 0800 - 1800 dydd Llun - dydd Gwener a 0800 - 1300 ar ddydd Sadwrn. Diffinnir y Nos fel 2300 - 0700 ac mae 'amseroedd eraill' yn cynnwys y cyfnod y tu allan i ddiwrnod gwaith arferol ond heb gynnwys y nos. Hefyd rhoddir *"maximum satisfactory magnitudes of vibration with respect to human response for up to three blast vibration events per day"* (o ran cyflymder gronynnau anterth PPV) yn Nhabl 1. Mae'r maint yn amrywio rhwng 6.0-10.0 $mms^{-1}$ ar gyfer y dydd, 2.0 $mms^{-1}$ ar gyfer y nos a 4.5 $mms^{-1}$ ar gyfer "amseroedd eraill";

Mae CSYM yn cynnig nad yw amseroedd blastio arfaethedig Horizon yn cydymffurfio â'r Safon gan fod blastio rhwng 18:00 a 19:00 dydd Llun i ddydd Gwener yn dod o dan 'amseroedd eraill' yn ôl y diffiniad a roddir yn y safon.

Mae Horizon yn nodi bod yr amseroedd wedi'u newid er mwyn i'r amseroedd blastio gyd-fynd â newidiadau shifft fel bod staff sydd wedi'u hyfforddi'n ddigonol ar gael ar y safle i wneud gweithgareddau blastio. Fodd bynnag, fel y cadarnheir ym mharagraff 2.7.18 o'r ddogfen dechnegol sy'n rhan o'r ymgynghoriad, y cyfnod rhwng 18:00 a 19:00 yw'r adeg pan ddaw pobl adref o'u gwaith gan ddisgwyl gallu ymlacio, ac felly bydd yn fwy sensitif i darfu. Mae'r lefel uchel o sensitifrwydd yn cynyddu maint yr effaith ac felly dylid ei liniaru drwy gyfyngu digwyddiadau i'r oriau a argymhellir ac arferion safonol.

Dylai'r gosodiad ym mharagraff 2.4.1 *"Due to the complexity of the operation, it is likely that each blast will be of a bespoke design and dependant on the amount of material required to be removed or the final profile needed"* fod yn wir ar gyfer pob achos o flastio boed ar chwarel, safle glo brig, safle adeiladu neu ddymchwel. Ni ddylid byth defnyddio dull "un sy'n addas i bawb" wrth flastio.

Mae Paragraff 2.4.3 yn cyfeirio at gymhlethdod y gweithrediadau blastio yn cynnwys*"some pre- split blasting involving smaller satisfactory magnitude blasts"* - er gwaetha'r gosodiad hwn, dylid nodi y gallai'r dull hwn o flastio greu lefelau uwch o ddirgrynu a gorbwysedd aer oherwydd natur y blastio. Byddai angen dylunio'r math hwn o flastio'n ofalus i leihau'r effeithiau amgylcheddol;

Mae CSYM yn gwrthwynebu'r Strategaeth Blastio fel y mae wedi'i chyflwyno ar hyn o bryd ac mae'n gofyn am ei diwygio fel ei bod yn cydymffurfio â Safon BS6472-2:2008 a bod y tanio sy'n digwydd rhwng 18:00 a 19:00, yn digwydd o dan 'amseroedd eraill' ac yn amodol ar y terfyn ppv is o 4.5mm $^{-1}$ er mwyn lleihau effeithiau, yn cynnwys lliniaru ar gyfer effeithiau posibl o darfu a pheri trallod i drigolion. Dylid cadarnhau hyn yn y strategaeth rheoli sŵn a dirgrynu sydd wedi'i chynnwys yn  Is God Ymarfer Adeiladu Safle'r Brif Orsaf Bŵer.

Bydd y meini prawf blastio gwreiddiol sydd wedi'u cynnwys ym mharagraff 8.2.2 o Is God Ymarfer Adeiladu Safle'r Brif Orsaf Bŵer yn dal yn berthnasol i unrhyw newid[1]. Mae CSYM yn ystyried bod y meini prawf ar gyfer dirgrynu yn addas ar gyfer hyd at 3 digwyddiad blastio y dydd rhwng 0900 a 1800 a bod y maen prawf is o 4.5 mm$^{-1}$ o Dabl 1 o BS6472-2 yn cael ei ddefnyddio ar gyfer pob digwyddiad blastio a wneir ar ôl 18:00 o'r gloch i atal*" undue disturbance at residential dwellings, education, facilities, bat roosts and barn owl roosts"*.

O ran mesurau arfer gorau, mae CSYM yn ystyried bod BS5228 '*Construction Noise and Vibration'* yn fwy penodol i safleoedd agored ac adeiladu, ac felly'n fwy perthnasol i Brosiect Wylfa Newydd (er nodir bod y safon yn ymwneud yn bennaf â dirgrynu a achosir gan beiriannau a gosod pyst. Felly mae CSYM yn argymell bod CoCP Wylfa Newydd ac is-godau CoCP perthnasol yn cadarnhau y bydd y prosiect yn gweithredu ac yn cadw at gyngor arfer gorau sydd yn BS5228 cyn belled ag y mae'n berthnasol i'r prosiect. Bydd hyn yn sicrhau yn ymarferol, bod y dulliau gweithio'n defnyddio mesur cyfatebol rhesymol o arfer gorau ar draws mathau o synau a rheoli dirgryniadau, yn arbennig wrth gloddio mwynau trwy flastio rhannau o'r graig.

[1] Cyfeirnod Llyfrgell Archwilio  APP-415

Mae adran 8.6.9 of BS5228 *Practical measures to reduce vibration and air overpressure from blasting* ac Adran 9.1 sy'n cyfeirio at *Monitoring* yn arbennig o berthnasol.

Hefyd ystyrir bod yr adrannau canlynol o BS5228 yn berthnasol:- 8.6.3 lleoliad elfennau safle, 8.6.4 dulliau gweithio, *8.6.5* dewis peiriannau*,* 8.6.6 defnyddio peiriannau a 8.6.8 rheoli safle.

**Slotiau Amser Blastio**

Mae'r adroddiad DETR o Ebrill 1998 *"The Environmental Effects of Production Blasting from Surface Mineral Workings"*, yn seiliedig ar waith a wnaed gan Vibrock Limited, yn datgan bod amseroedd blastio fel arfer naill ai'n seiliedig ar:

- Slot amser rhwng amser dechrau a gorffen penodol (fel y cynigir gan Horizon); neu'n
- Fwy cyffredin fel slot 5 – 10 munud o boptu, er enghraifft, ar ben yr awr rhwng amser dechrau a gorffen penodol.

Mae CSYM yn gofyn i Horizon fabwysiadu'r olaf ar gyfer blastio ar brosiect WNDA. Mae hyn yn seiliedig ar dystiolaeth o'r adroddiad DETR oedd yn cynnwys arolwg canfyddiad y cyhoedd fel rhan o'r ymchwil a wnaed. Roedd yr holl atebion i'r holiadur oedd yn rhan o'r arolwg hwn, fwy neu lai, yn dweud bod yn well gan bobl amseroedd blastio sefydlog a rheolaidd ac y dylai'r holl bartïon dan sylw gael gwybod yr amseroedd hynny. Gellid rhoi gwybod drwy hysbysiadau safle, trwy Grŵp Cyswllt Cymunedol, trwy wefan fyw/cyfryngau cymdeithasol neu drwy gronfa ddata e-bost 'partïon â diddordeb.' Mae lleihau blastio i ffenestr o 10 - 20 munud ar ben yr awr rhwng 09:00 - 19:00 o'r gloch yn debygol o gael ei ystyried yn gadarnhaol gan gymdogion safle a lleihau tarfu trwy ei gwneud yn haws rhagweld gwaith blastio.

Yn amlwg, bydd angen cynnwys cymal i'r perwyl y byddai hyn yn digwydd bob amser, ac eithrio mewn achos o argyfwng lle mae risg i ddiogelwch (er enghraifft, mewn achos posibl o gam-danio). Dylid rhoi gwybod yn syth am achosion o'r fath i CSYM drwy ddull adrodd y cytunwyd arno.

Mae dulliau eraill o rybuddio ynghylch gwaith blastio ar gael fel hedfan baneri coch ar derfynau sensitif a seirenau/hwteri rhybuddio cyn ac ar ôl blastio (i ddweud ei bod yn glir). Mae nifer o'r rhain yn rhag-amod i arferion blastio diogel a byddent yn rhan o'r protocolau blastio ar gyfer y safle.

**Asesu effeithiau dirgrynu ar asedau hanesyddol**

Mae CSYM wedi cadarnhau yn ei Adroddiad Effaith Lleol bod angen cynnal asesiad pellach yn y cais GCD o effaith bosibl dirgrynu ar asedau hanesyddol.

**Cydsyniad o dan Adran 61 o Ddeddf Rheoli Llygredd 1974**

Un dull uniongyrchol o reoli sŵn a dirgrynu fydd yr angen i Horizon gyflwyno cais i CSYM am Gydsyniad Blaenorol o dan Adran 61 o Ddeddf Rheoli Llygredd 1974 ar gyfer yr holl waith adeiladu. Bydd angen i bob cais gynnwys manylion y gwaith i'w wneud, y dulliau gweithio a manylion y peiriannau a ddefnyddir i wneud y gwaith. Hefyd bydd angen cyflwyno manylion ynglŷn â'r mesurau arfaethedig i reoli sŵn a dirgrynu. Hefyd yn ychwanegol at geisiadau o'r fath bydd angen asesiadau risg dirgrynu a fyddai'n cadarnhau bod pellteroedd gweithio diogel, neu dechnegau cywasgu eraill, yn bosibl eu defnyddio. Nodir bod ychwanegu'r mesur lliniaru hwn wedi lleihau lefel effeithiau dirgrynu i effaith niweidiol cymedrol yn y WNDA.

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

**DYLAN J. WILLIAMS** BA (Hons), MSc, MA, M.R.T.P.I.
Pennaeth Gwasanaeth – Rheoleiddio a Datblygu Economaidd Head of Service – Regulation and Economic Development

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Canolfan Fusnes Môn • Anglesey Business Centre
Parc Busnes Bryn Cefni • Bryn Cefni Business Park
LLANGEFNI
Ynys Môn • Isle of Anglesey
LL77 7XA
ffôn / tel: (01248) 752499
ffacs / fax: (01248) 752192
Gofynnwch am / Please ask for: Dylan Williams
Email: DylanWilliams@ynysmon.gov.uk
Ein Cyf / Our Ref:
Eich Cyf / Your Ref:
Dyddiad / Date:28 September 2018

Horizon Nuclear Power,
Sunrise House,
1420 Charlton Court,

Glouscester
GL3 4AE.

***Anfonwyd drwy e-bost***

Annwyl Syr/Fadam,

**Wylfa Newydd – Newidiadau arfaethedig i amser blastio ar y safle**

Gan gyfeirio at ymgynghoriad Gorsaf Bŵer Niwclear Horizon (Horizon) ynglŷn â'r newidiadau arfaethedig i amser blastio ar y safle, bellach mae Cyngor Sir Ynys Môn (CSYM) wedi cael cyfle i adolygu'r dogfennau ymgynghori, sy'n cynnwys dogfen dechnegol *(Cais rhif 1. am Newidiadau Ansylweddol - Strategaeth Blastio. Diwygiwyd 1.0 Awst 2018*).

I grynhoi mae CSYM yn derbyn defnydd o BS6472-2:2008 '*Guide to evaluation of human exposure to vibration in buildings*' yn amodol ar gynnwys darpariaeth ddigonol yng Nghod Ymarfer Adeiladu (CoCP) Wylfa Newydd a Is-godau CoCP i sicrhau bod mesurau arfer gorau'n cael eu defnyddio i reoli effeithiau blastio. Fodd bynnag, mae CSYM yn gwrthwynebu blastio rhwng 1800 a 1900 o'r gloch, ac nad yw blastio o fewn y cyfnod hwn yn cael ei drin fel "amseroedd eraill" o fewn ystyr BS6472-2.

Nodwch nad yw ein sylwadau'n rhagfarnu unrhyw sylwadau y byddwn efallai'n dymuno eu gwneud yn nes ymlaen. Bryd hynny efallai bydd gwybodaeth newydd neu ychwanegol ar gael y bydd angen i ni ei hystyried wrth ymateb yn ffurfiol i unrhyw Gais Cynllunio Gwlad a Thref neu gais Gorchymyn Cydsyniad Datblygu (GCD).

Nodir bod Horizon yn bwriadu gwneud newidiadau i'r amseroedd blastio yn ychwanegol at yr hyn sydd wedi'i gynnwys yn y cais Gorchymyn Cydsyniad Datblygu sy'n cynnwys newid yr amseroedd fel a ganlyn;

| Proposed DCO Blasting Timing | Proposed Change |
|---|---|
| *Monday to Friday between10:00 and 16:00* | *Monday to Friday between 09:00 and 19:00* |
| *Saturday between 10:00 and 13:00* | *Saturday between 08:00 and 13:00 (with no blasting after dusk between March and September)* |
| *No blasting on Sundays and Bank Holidays.* | *No blasting on Sundays and Bank Holidays.* |

Nodir y cadarnhad y bydd tri digwyddiad dirgrynu yn unig y dydd.

Mae Horizon yn cadarnhau y bydd newid yr amserlen fel yr amlinellir yn y cais GCD yn golygu bod amseroedd blastio'n cyd-fynd yn well â'r rhai a nodir yn BS6472-2 ond gyda newidiadau i amseroedd dechrau a gorffen ar gyfer patrymau shifft gweithwyr, er mwyn lleihau tagfeydd traffig.

Nodir bod Horizon yn rhagweld na fydd unrhyw effeithiau amgylcheddol newydd o ganlyniad i'r newid arfaethedig hwn.

Tra bod CSYM yn fodlon bod y newid arfaethedig yn ansylweddol o ran cyd-destun, mae gennym sylwadau o ran newidiadau i effeithiau.

1. Tra bod BS6472-2 yn cynnwys cyngor ar gyfer blastio mewn gwaith peirianneg sifil, mae'r Cyngor yn ystyried bod BS5228 '*Construction Noise and Vibration'* yn fwy penodol ar gyfer safleoedd agored ac adeiladu, ac felly'n fwy perthnasol i Brosiect Wylfa Newydd (er y nodir bod y safon yn ymwneud yn bennaf â dirgrynu a achosir gan beiriannau a gosod pyst. Felly mae CSYM yn argymell bod CoCP Wylfa Newydd ac is-godau CoCP perthnasol yn cadarnhau y bydd y prosiect yn gweithredu ac yn cadw at gyngor arfer gorau sydd yn BS5228 cyn belled ag y mae'n berthnasol i'r prosiect. Bydd hyn yn sicrhau yn ymarferol, bod y dulliau gweithio'n defnyddio mesur cyfatebol rhesymol o arfer gorau ar draws mathau o synau a rheoli dirgryniadau, yn arbennig wrth gloddio mwynau trwy flastio rhannau o'r graig. Mae adran 8.6.9 of BS5228 *Practical measures to reduce vibration and air overpressure from blasting* ac Adran 9.1 sy'n cyfeirio at ***Monitoring*** yn arbennig o berthnasol.

   Hefyd ystyrir bod yr adrannau canlynol o BS5228 yn berthnasol;

   - *8.6.3 lleoliad elfennau safle*
   - *8.6.4 dulliau gweithio*
   - *8.6.5 dewis peiriannau*
   - *8.6.6 defnyddio peiriannau*
   - *8.6.8 rheoli safle*

   Mae cais gan CSYM fod y GCD yn cynnwys darpariaethau i ganiatáu i fersiynau terfynol o CoCP ac is-godau CoCP gael eu cymeradwyo gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol, mewn ymgynghoriad â Cyfoeth Naturiol Cymru.

2. Mae Horizon yn cynnig y bydd y newid arfaethedig yn sicrhau bod amseroedd blastio'n cyd-fynd yn well â'r Safonau Prydeinig perthnasol BS 6472-2 ar y graddau y daw pobl i gysylltiad â dirgrynu.

Mae'r Safon Brydeinig yn rhoi canllawiau penodol ynglŷn â'r amseroedd a argymhellir ar gyfer blastio ac mae'n cadarnhau maint dirgrynu boddhaol (cyflymder gronynnau anterth), gan ddiffinio blastio yn ystod y dydd y nos ac ar amseroedd eraill. Mae'r safon yn cadarnhau mai'r oriau arferol 'yn ystod y dydd' ar gyfer blastio i bwrpas echdynnu mwynhau ar y wyneb yw 08:00 i 18:00 dydd Llun i ddydd Gwener a 08:00 i 13:00 ar ddydd Sadwrn, a dim blastio ar ddydd Sul neu Wyliau Banc.

Nid yw amseroedd blastio arfaethedig Horizon yn cydymffurfio â'r Safon gan fod blastio rhwng 18:00 a 19:00 o'r gloch dydd Llun i ddydd Gwener yn dod o dan 'amseroedd eraill' fel y diffinnir gan y safon. Mae'r safon yn cadarnhau fod 'amseroedd eraill' yn ymestyn i'r oriau y tu allan i'r diwrnod gwaith ond heb gynnwys y nos sy'n cael ei ddiffinio fel rhwng 23:00 a 07:00.

Mae Horizon yn nodi bod yr amseroedd wedi'u newid i gyd-fynd â phatrymau shifft y gweithwyr. Fodd bynnag, fel y cadarnheir ym mharagraff 2.7.18 o'r ddogfen dechnegol sy'n rhan o'r ymgynghoriad, y cyfnod rhwng 18:00 a 19:00 yw'r adeg pan ddaw pobl adref o'u gwaith gan ddisgwyl gallu ymlacio, ac felly bydd yn fwy sensitif i darfu. Mae'r lefel uchel o sensitifrwydd yn cynyddu maint yr effaith ac felly dylid ei liniaru drwy gyfyngu digwyddiadau i'r oriau a argymhellir ac arferion safonol.

Mae'r Safon Brydeinig hefyd yn cadarnhau na ddylid blastio y tu allan i'r oriau a argymhellir ac eithrio dan amgylchiadau eithriadol. Mae cais gan Horizon i wneud gwaith blastio y tu allan i'r oriau a argymhellir fel rhan o'i amserlen blastio arferol.

Felly, am y rhesymau hyn, mae CSYM yn gwrthwynebu'r newid arfaethedig i'r amseroedd blastio.

Nid yw'r ddogfen ymgynghorol yn cadarnhau unrhyw lefel ddirgrynu foddhaol.

Mae CSYM yn gofyn i Horizon gadarnhau os oes angen blastio ychwanegol rhwng 18:00 a 19:00, y dylai hyn ddod o dan 'amseroedd eraill' fel y diffinnir yn BS 6472-2 er mwyn cydnabod y byddai pobl yn fwy sensitif i flastio yn ystod yr oriau hyn. Er mwyn cydymffurfio â BS 6472-2, dylid cadw'r lefelau dirgrynu yn ystod 'amseroedd eraill' i'r lefel maint boddhaol isaf (4.5 ppv mms$^{-2}$) er mwyn lliniaru effeithiau, yn cynnwys lliniaru ar gyfer effeithiau posibl o darfu a pheri trallod i drigolion. Dylid cadarnhau hyn yn y strategaeth rheoli sŵn a dirgrynu sydd wedi'i chynnwys yn is CoCP Safle'r Brif Orsaf Bŵer.

3. Nid yw CSYM yn glir ynglŷn â'r rhesymeg dros gadarnhau na fydd gwaith blastio'n digwydd ar ôl cyfnos rhwng misoedd Mawrth a Medi, gan fod cyfnos yn ddiweddarach yn ystod misoedd yr haf. Mae angen eglurhad ynghylch a oes angen cyfyngu ar waith blastio ar ôl cyfnos ym misoedd y gaeaf ac nid misoedd yr haf.

---

[2] Adolygiad o gais GCS Horizon (Ardal Datblygu Wylfa Newydd

4. Mae CSYM wedi cadarnhau yn ein hymateb i Horizon dyddiedig 27 Medi 2018 [1] fod angen asesiad pellach yn y cais GCD i effaith bosibl dirgrynu ar asedau hanesyddol sy'n cynnwys y canlynol;

- Yn ystod gwaith adeiladu, mae'r cais GCD yn nodi'r potensial i ddirgrynu achosi difrod strwythurol i'r Felin, ond mae'n nodi y byddai arferion gweithio diogel yn cael eu gweithredu i osgoi unrhyw ddifrod parhaol.

- Er bod lliniaru yn erbyn difrod ffisegol yn deillio o ddirgrynu'n cael ei gyflwyno mewn egwyddor, mae angen gwybodaeth bellach am y cynnig lliniaru hwn cyn y gall CSYM ei ystyried yn gadarn (yn cynnwys manylion sut y bydd y cynnig lliniaru'n cael ei sicrhau). Nodir y byddai arferion gweithio diogel yn cael cynnwys i osgoi unrhyw ddifrod parhaol ond ni roddir unrhyw fanylion i allu asesu effeithiolrwydd tebygol unrhyw gynigion lliniaru ac i ganfod graddau'r difrod i'r ased treftadaeth hwn, sydd 'o bwysigrwydd mawr' yn nhermau NPS.

- Nid yw'r cais GCD yn cynnig datganiad i ddweud a fyddai'r effeithiau hyn yn cynnwys niwed yn nhermau polisi, ac ni chynigir unrhyw farn p'un ai a fyddai'r niwed o faint sylweddol. Gallai maint y newid i'r lleoliad yn ystod gwaith adeiladu drwy newid gweladwy a chlywadwy i'r lleoliad wedi'i gyfuno â llygredd golau a newid i ansawdd aer, hefyd gyfrannu at neu achosi niwed sylweddol, hyd yn oed lle gellid osgoi difrod trwy ddirgrynu.

- Hefyd mae CSYM wedi nodi yn yr un ymateb (dyddiedig 27 Medi 2018) fod angen asesiad pellach o'r effeithiau cyfun (sŵn, llwch, dirgrynu, goleuo, effaith weledol) ar yr amgylchedd hanesyddol, yn cynnwys effeithiau posibl ar Erddi Cestyll a'r Adeilad Gradd II* cysylltiedig (y Felin).

- Mesurau i ddiogelu (rhag difrod ffisegol ac effeithiau llwch, dirgrynu, newidiadau i ansawdd dŵr, llygredd golau ayb) a gwella elfennau hanfodol o Dirwedd y Fonesig Sylvia Crowe yn ystod y gwaith adeiladu, i'w cynnwys, er enghraifft yn y CEMP ac unrhyw gynlluniau tirwedd yn ystod y gwaith adeiladu.

5. Mae CSYM hefyd wedi hysbysu yn ein llythyr dyddiedig 19 Medi 2018[3] ynghylch y risg i enw da os bydd effeithiau'r gwaith adeiladu'n arwain at ganfyddiad negyddol a fydd yn cael effaith andwyol ar enw da Ynys Môn fel cyrchfan dwristiaeth flaenllaw sy'n seiliedig ar natur. Mae hyn yn cynnwys effeithiau ar yr AHNE, Llwybr yr Arfordir a'r Hawl Tramwy Cyhoeddus. Mae angen mesurau lliniaru ar ffurf arian cyfalaf i wella darpariaeth bresennol a chefnogi marchnata a hybu profiad ymwelwyr, yr AHNE a Llwybr yr Arfordir i fynd i'r afael ag effeithiau negyddol ar y sector twristiaeth.

[3] Adolygiad o Gais GCD Horizon (Twristiaeth)

6. Un dull uniongyrchol o reoli sŵn a dirgrynu fydd yr angen i Horizon gyflwyno cais i CSYM am Gydsyniad Blaenorol o dan Adran 61 o Ddeddf Rheoli Llygredd 1974 ar gyfer yr holl waith adeiladu. Bydd angen i bob cais gynnwys manylion y gwaith i'w wneud, y dulliau gweithio a manylion y peiriannau a ddefnyddir i wneud y gwaith. Hefyd bydd angen cyflwyno manylion ynglŷn â'r mesurau arfaethedig i reoli sŵn a dirgrynu. Hefyd yn ychwanegol at geisiadau o'r fath bydd angen asesiadau risg dirgrynu a fyddai'n cadarnhau bod pellteroedd gweithio diogel, neu dechnegau cywasgu eraill, yn bosibl eu defnyddio. Nodir bod ychwanegu'r mesur lliniaru hwn wedi lleihau lefel effeithiau dirgrynu i effaith niweidiol cymedrol yn y WNDA.

Hyderwn y bydd y sylwadau hyn o gymorth i chi ac y byddant yn cael eu hystyried wrth i chi fireinio eich cynigon er mwyn sicrhau eu bod yn achosi cyn lleied â phosibl o darfu a thrallod i drigolion gerllaw. Os oes gennych unrhyw gwestiynau mae croeso i chi gysylltu â ni.

**Yn gywir**

[redacted]

**DYLAN J. WILLIAMS**
Pennaeth Gwasanaeth – Rheoleiddio a Datblygu Economaidd
Head of Service - Regulation and Economic Development